COFNODION CYFARFOD IS-BWYLLGOR ARIANNOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fawrth, Mawrth 10fed, 2020 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd), G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Robert M. Jones a'r Clerc

YMDDIHEURIAD

John G. Jones

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cyng. Robert M. Jones fuddiant personol yng nghais Clwb Hoci Pwllheli oherwydd bod ei ferch yn aelod o'i Bwyllgor (gadawodd y cyfarfod pan y'i trafodwyd.)

2. **CEISIADAU**

Derbyniwyd y ceisiadau isod ac awgrymwyd cyfrannu fel a ganlyn:

a) **Marie Curie -** £150.00

b) **Cymdeithas Parêd Dewi Sant Pwllheli -** £50.00

c) **Theatr Bara Caws -** £100.00

ch) **Dawns i Bawb -** £100.00

d) **Clwb Hoci Pwllheli -** £200.00
cais at brynu cae bob tywydd newydd

dd) **Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llŷn ac Eifionydd 2021 -** £2000.00
penderfynwyd cyfrannu £5000.00 dros y tair blynedd ariannol nesaf yng nghyfarfod mis Rhagfyr y Cyngor. Awgrymwyd cyfrannu £2000.00 eleni, £2000.00 ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (fel y gall y Pwyllgor lleol fanteisio ar y cyfraniad) a'r mil olaf y flwyddyn ganlynol

e) **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych a'r Cylch 2020** - £200.00

f) **Hosbis Dewi Sant** - £100.00
ni dderbyniwyd cais o'r blaen

ff) **Ambiwlans Awyr Cymru -** £500.00
cais am gyfraniad er mwyn datblygu'r gwasanaeth i fod yn un sy'n gweithredu 24 awr y dydd, bob dydd.

g) **Grŵp Mynediad Dwyfor -** £50.00
ni dderbyniwyd cais o'r blaen - diben y Grŵp yw cefnogi a cheisio datrys problemau a wyneba pobl ag anabledd, sef cwynion ynglŷn â mynedfeydd mewn ysbytai, swyddfeydd, bwytai, palmentydd, trafnidiaeth a.y.y.b.

ng) **Teenage Cancer Trust -** £100.00
ni dderbyniwyd cais o'r blaen

h) **Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen -** £100.00

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 o'r gloch.